Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ar Ddatganiad o Hawliau Ariannol (Diwygio Rhif 3 Cyfarwyddiadau) 2006 a Chyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol (Rhaglen Brechu Plant) 2006.

1. Roedd y Pwyllgor wedi nodi eu bod am graffu ar y rheoliadau hyn a chawsant eu cyflwyno i'r Pwyllgor ar gyfer ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 06. Cawsant eu hystyried yn unol â'r protocol ar gyfer delio ag is-ddeddfwriaeth y cytunodd y Pwyllgor arno ar 11 Mehefin 2003, lle mae'r Aelodau'n rhoi gwybod ymlaen llaw am unrhyw gwestiynau neu welliannau sydd ganddynt.

2. Ni chynigiodd yr Aelodau unrhyw welliannau, ond cododd Karen Sinclair bwyntiau i'w hegluro mewn perthynas â pharagraff 2 o Gyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol (Rhaglen Brechu Plant) 2006. Gofynnodd a oedd 'reasonably possible' yn ddigonol mewn perthynas ag ymdrechion y Byrddau Iechyd lleol i sicrhau bod pob plentyn yn cael eu brechu, ac a allai arwain at drefniadau gwahanol gan Fyrddau Iechyd gwahanol.

3. Ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud y byddai camau'n cael eu cymryd i ofalu bod y broses o frechu plant yn cael ei monitro'n gyson, gan gynnwys allbrint misol o'r holl blant sydd i'w brechu, a'r rheini sy'n cael eu brechu. Byddai enwau'r plant hynny nad oeddynt wedi cael eu brechu'n mynd yn ôl ar y system yn awtomatig, a byddai'r meddygon teulu a'r gweithwyr iechyd yn cael eu hysbysu.

4. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y rheoliadau drafft.

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd
Rhagfyr 2006